**Pwyllgor Diwylliant - CC-1-02(p.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 9.00am -12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol |

**Adolygiad Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol o'r Iaith Gymraeg: Ymateb S4C**

1. **Cyflwyniad**

1.1 Mae'r papur hwn yn gosod allan ymateb S4C i adolygiad o'r iaith Gymraeg sy'n cael ei gynnal gan Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol. Mae S4C yn croesawu natur eang ymchwiliad y Pwyllgor. Mae hyn yn adlewyrchu ei farn ei hun, bod gan ystod eang o sefydliadau a mentrau ran i chwarae mewn sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg at y dyfodol. Tra bo gan S4C ddiddordeb mewn ehangu cwmpas y gweithgareddau y bydd yn eu dilyn mewn partneriaeth gydag eraill, mae'r ymateb hwn yn cyfyngu ei hun i faterion sy'n perthyn i deledu ac i gylch cymhwyster uniongyrchol S4C.

**2. Cyfraniad S4C**

2.1 Prif gyfrifoldeb S4C yw cyflawni mor effeithiol ag y bo modd ei orchwyl fel darlledwr cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys y gofyn i ddarlledu ystod eang o raglenni teledu o safon uchel gyda'r diben o addysgu, hysbysu a diddanu. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon mae S4C yn ymwybodol, fodd bynnag, o'r cyfraniad sylweddol iawn mae teledu yn ei wneud i gefnogi polisïau ehangach y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer hyrwyddo ac atgyfnerthu'r iaith Gymraeg.

2.2 O safbwynt yr iaith, mae'r prif fuddion yn cynnwys:

(i) yr hyn mae'n ei olygu i **statws a dilysrwydd** yr iaith i fod yn nodwedd amlwg a sefydlog o'r hyn yw, yn ôl pob tebyg, y cyfrwng unigol mwyaf grymus ym mywyd bob dydd pobl. Mae gofod neilltuedig S4C ar bob un o'r prif lwyfannau digidol yn rhoi'r gobaith y bydd gwasanaeth estynedig yn dod â mwy fyth o fuddion yn y dyfodol.

(ii) gall teledu o'r safon uchaf helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o **gymuned** hyd yn oed pan fo'r gymuned honno, fel yn achos siaradwyr Cymraeg, wedi ei gwasgaru'n ddaearyddol. Gall gwasanaeth is-deitlo S4C hefyd fod yn ddull pwysig o gael mynediad i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig i'r di-Gymraeg a'r rhai sy'n dysgu'r iaith. I lawer o bobl, teledu Cymraeg fydd eu prif os nad eu hunig gyfle i glywed yr iaith Gymraeg. Mae nifer cynyddol y di-Gymraeg sy'n mwynhau rhaglenni Cymraeg yn galondid i S4C. Yn ystod wythnos arferol bydd mwy nag 800,000 o bobl yng Nghymru yn gwylio rhan o'n gwasanaeth o leiaf.

(iii) Mae teledu Cymraeg yn cynnig buddion arbennig i gefnogi gwahanol sectorau'r gyfundrefn **addysg** yng Nghymru. Mae S4C wedi rhoi pwyslais arbennig ar raglenni plant o ran rhai cyn oed ysgol yn ogystal â'n strand Planed Plant ar gyfer plant sydd eisoes yn yr ysgol. Mae'r gyfres *Now You're Talking* wedi dod yn elfen sefydlog o'r gefnogaeth sydd ar gael i oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Mae Coleg Digidol Cymru, a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector addysg bellach yng Nghymru, yn dechrau amlygu grym teledu digidol fel arf i hyrwyddo dysgu gydol oes yn fwy cyffredinol.

(iv) Mae teledu yn gwneud **cyfraniad economaidd** pwysig, gyda rhyw 98% o wariant S4C ar raglenni yn cael ei wario yng Nghymru. Dangosodd adroddiad diweddar Uned Ymchwil Economi Cymru fod S4C yn gyfrifol am ryw 1,200 o swyddi'n gyfan gwbl. Mae llawer o'r rhain yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith draddodiadol. Mae teledu Cymraeg hefyd yn enghraifft dda o sector lle gall pobl ifanc gyda'r sgiliau gofynnol ddilyn eu gyrfâu trwy gyfrwng y Gymraeg.

(v) Mae S4C hefyd yn gwneud cyfraniad bywiog i **ddiwylliant** Cymru. Mae'r gwasanaeth rhaglenni yn darparu ffenestr siop gynhwysfawr i'r celfyddydau mwy traddodiadol sy'n cael eu dathlu yn yr Eisteddfodau. Wrth gynhyrchu mwy na 100 awr o ddramâu gwreiddiol bob blwyddyn, ynghyd â mwy na 300 awr o raglenni ar gyfer pobl ifanc a phlant a rhyw 200 awr o raglenni ar y celfyddydau

a cherddoriaeth mae'n gwneud cyfraniad sylweddol a llawer ehangach i fywyd diwylliannol a chreadigol Cymru. Mae S4C yn buddsoddi'n sylweddol iawn hefyd mewn hyfforddiant ac ysgoloriaethau i annog llif parhaol o dalent dechnegol a chreadigol i'r diwydiant.

(vi) Mae S4C hefyd yn chwarae rhan bwysig mewn hyrwyddo'r iaith Gymraeg **tu allan i Gymru**. Gyda dyfodiad gwasanaethau lloeren gall rhyw 60,000 o bobl yng ngweddill y DU dderbyn gwasanaeth Cymraeg digidol S4C erbyn hyn. Mae enwebiadau Oscar, fel yr un a dderbyniodd *Solomon a Gaenor,* yn ddull grymus o dynnu'r iaith Gymraeg i sylw cynulleidfa llawer ehangach.

## 3. Edrych i'r Dyfodol

3.1 Mae teledu yn rhoi pob arwydd y bydd yn parhau fel y cyfrwng grymus datblygodd i fod dros yr 50 mlynedd diwethaf. Mae S4C yn credu ei fod wedi llwyddo, ar y cyd â'r BBC ac eraill, i sicrhau fod grym teledu yn ymestyn i ddarlledu yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Mae S4C yn credu hefyd, hyd y gellir rhagweld, y bydd gan deledu Cymraeg ran bwysicach fyth i'w chwarae o ran cefnogi'r iaith Gymraeg. Tra bo cymunedau Cymraeg eu hiaith draddodiadol yn dal o dan fygythiad bydd gallu'r teledu gorau i dynnu pobl ynghyd, yn enwedig gyda chefnogaeth cyfryngau rhyngweithiol newydd, yn dod yn fwy, yn hytrach nag yn llai, pwysig. I'r graddau ein bod yn allforio ein medrusrwydd creadigol yn llwyddiannus trwy werthu mwy o raglenni'n rhyngwladol mae'r sector clyweled sy'n cael ei yrru gan wybodaeth yn cynnig y gobaith o wneud cyfraniad mwy sylweddol fyth i'r economi fel y bydd rhai o ddiwydiannau mwy traddodiadol Cymru yn mynd yn llai pwysig. Yn ogystal, bydd y cyfraniad y gall teledu gorau Cymraeg a Saesneg o Gymru ei wneud i hyrwyddo delwedd gadarnhaol Cymru a phoblogeiddio ein diwylliant cynhenid yn ffactor pwysig mewn goresgyn yr effaith negyddol ar yr iaith allai ddod gyda'r symudiad cynyddol tuag at ddiwylliant homogenaidd, byd-eang.

2. Mae S4C wedi ymrwymo i sicrhau y dylid cynnal ei gyfraniad at gefnogi'r mesurau ehangach i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'u cryfhau, lle bynnag y bo modd. Bydd yn parhau i edrych ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er mwyn ychwanegu gwerth at ei wasanaeth teledu craidd. Ond bydd yr her o drosglwyddo'r gwasanaeth craidd hwnnw yn tyfu fwy fyth fel y bydd darlledu yn mynd yn fwyfwy cystadleuol gyda nifer y sianelau Saesneg yn ehangu o hyd. Er bod S4C yn hyderus fod ganddi'r strategaeth gywir ar gyfer amgylchedd aml-sianel, bydd ei llwyddiant yn rhannol ddibynnol ar lif parhaol o dalent ac ar gryfder creadigol y

cwmnïau sy’n cyflenwi rhaglenni. Bydd yn dibynnu hefyd ar sicrhau y gall S4C barhau i arloesi a bod teledu Cymraeg yn symud yr un mor gyflym â disgwyliadau cynyddol gwylwyr o ran rhaglenni a’r dechnoleg all eu cyfoethogi.

3.3 Mae cyfres gyntaf o argymhellion S4C mewn ymateb i adolygiad y Pwyllgor Diwylliant, felly, yn cael eu cyfeirio’n benodol at sicrhau y gall y gwasanaeth teledu Cymraeg craidd ddal i wneud y cyfraniad hanfodol i’r iaith Gymraeg a wnaeth hyd yma. Ein cynigion penodol yw:

(i) y dylai’r angen i ganiatáu i bobl ifanc fynegi dawn greadigol a thalent yn y Gymraeg yn ogystal â’r Saesneg fod yn elfen allweddol o bolisi iaith Gymraeg y Cynulliad Cenedlaethol. Yr hyn sydd gennym mewn golwg yma yw’r diffiniad ehangaf bosibl o weithgareddau creadigol a diwylliannol. Dylai ymgyrraedd o ymestyn y cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu a pherfformio; cynnal ac ehangu, os oes modd, y cyfleoedd yn ystod ac o amgylch ein gwyliau ac eisteddfodau cenedlaethol; a thrwy ddefnyddio mwy o fwrsariaethau a chymhellion eraill sy’n cael eu darparu gan Gyngor y Celfyddydau, Corff y Lotri ac eraill;

(ii) y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol gadarnhau ei fwriad o roi pwyslais arbennig ar y sector clyweled fel elfen allweddol o’i strategaeth datblygu economaidd ehangach. Bydd hyn yn hanfodol os yw Cymru i ddatblygu sector annibynnol mwy bywiog fyth, sy’n cystadlu’n llwyddiannus i ddarparu rhaglenni nid yn unig i S4C ond i Channel 4 ac i ddarlledwyr yn fwy cyffredinol;

(iii) y dylai bod cynnydd yn yr arian sydd ar gael i gefnogi teledu Cymraeg i sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaeth estynedig sy’n defnyddio’r gofod digidol mwy sydd ar gael nawr ac i sicrhau y gall S4C gystadlu’n llwyddiannus o fewn amgylchedd darlledu sy’n fwyfwy cystadleuol. Mae S4C yn cydnabod nad yw’r pwynt olaf hwn yn gyfrifoldeb uniongyrchol ar y Cynulliad Cenedlaethol.

**4. Cyfryngau Newydd**

1. Mae S4C yn argymell ymhellach y dylai polisïau ehangach y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer gefnogi’r iaith roi pwyslais cynyddol ar ddatblygu cynnwys a sgiliau o ran yr agweddau Cymraeg ar y cyfryngau electronig newydd. Mae hyn

yn cynnig y gobaith o fuddion i’r iaith ac i economi Cymru. Rydym eisoes wedi gweld sut y gall ychwanegu gwasanaethau rhyngweithiol newydd i gefnogi rhaglenni gyfoethogi profiad gwylwyr a gwella gallu teledu i weithredu i gefnogi’r iaith Gymraeg. Bydd datblygu gwasanaethau band llydan newydd yn y dyfodol yn debygol o ddod â mwy fyth o fuddion. Fel y gwelsom wrth ddatblygu teledu, a radio cyn hynny, bydd y rhain, fodd bynnag, yn ddibynnol ar sicrhau y bydd Cymru a’r iaith Gymraeg yn sicrhau dull cynaliadwy o ddatblygu cynnwys ar gyfer y cyfryngau newydd. Mae hyn yn ei dro yn gofyn cymryd camau cynnar i sicrhau fod gan bobl ifanc y sgiliau technegol a chreadigol angenrheidiol a’u bod yn cael pob cyfle i ddatblygu’r cynnwys hwn yn y Gymraeg yn ogystal â’r Saesneg.

2. Mae S4C eisoes wedi cymryd camau cynnar i ddatblygu gwasanaethau rhyngweithiol sy’n cefnogi ei wasanaeth teledu craidd. Edrychwn ymlaen at allu gweithio ochr yn ochr ag amrywiaeth o sefydliadau gyda’r nod o wella’r gwasanaethau hyn yn y dyfodol a sicrhau’r budd mwyaf posibl i’r iaith Gymraeg.

S4C

Gorffennaf 2001

*************************************************************************